# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2016

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ann Griffith (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, John Griffith, Kenneth Hughes, Victor Hughes |
| **WRTH LAW:** | Arweinydd Tîm Rheoli Datblygu (NJ) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Jeff Evans, Vaughan Hughes, Richard Owain Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Aelodau Lleol: Y Cynghorwyr Jim Evans, R. Meirion Jones, Alun Mummery (ar gyfer eitem 1) |

---

**1 31C170D – Cais llawn i godi 17 o anheddau (12 gyda 2 ystafell wely, 4 gyda 3 ystafell wely ac 1 byngalo gyda 3 ystafell wely) ynghyd ag adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a cherddwyr ar dir ger Hen Lôn Dyfnia, Llanfairpwll**

Edrychodd yr Aelodau ar y safle o safbwynt y cynlluniau a gyflwynwyd. Rhoes y Swyddog grynodeb o'r gwrthwynebiadau a'r pryderon a godwyd gan drigolion lleol fel bod modd ystyried y pryderon hynny yn eu cyd-destun. Edrychodd yr Aelodau ar y system ddraenio arfaethedig a'r trefniadau o ran priffyrdd ynghyd â natur a dwysedd y tai yn yr ardal.

**2 45C432C – Cais llawn i godi dwy annedd ynghyd ag adeiladu mynedfa i gerbydau ar dir yn Graig Fawr, Dwyran**

*Cafodd yr eitem hon ei chadeirio gan y Cynghorydd John Griffith oherwydd roedd Cadeirydd y Pwyllgor, sef y Cynghorydd Ann Griffith, yn bresennol ar yr ymweliad safle fel Aelod Lleol.*

Edrychodd yr Aelodau ar y safle a'r ardal o'i gwmpas gan gymryd i ystyriaeth y pryderon a'r gwrthwynebiadau a godwyd mewn perthynas â'r risg o lifogydd a diogelwch ar y briffordd. Yn ogystal, rhoddwyd sylw i natur a math y tai a oedd yn yr ardal o gwmpas y safle yn y cyd-destun hwn.

**Y Cynghorydd Ann Griffith**
**Cadeirydd**